# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 17.06.09

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Selwyn Griffiths, Aeron Jones, Pat Larsen, Dafydd W. Roberts.

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill:** Y Parch. Ganon Tegid Roberts (Yr Eglwys yng Nghymru), Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistiaid), Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Gwyn Hefin Jones (Eglwys Bresbyteraidd Cymru).

**Athrawon:** Mr Noel Dyer (UCAC), Mr Paul Matthews Jones (SHA),

**Swyddogion:** Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Clerc CYSAG), Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Mrs Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Carol Llewelyn Jones (Athrawes Ymgynghorol) a Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig).

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Barchedig Ganon Tegid Roberts.

## 2. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Pat Larsen yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2009/10.**

## 3. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Huw Edwards yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2009/10.**

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Llongyfarchwyd Mrs Ruth Davies ar ddod yn nain i efeilliaid yn ddiweddar a dymunwyd yn dda iddynt fel teulu.

(b) Cyfeiriodd y Cadeirydd at brofedigaeth a ddaeth i ran y ddau aelod canlynol a mynegodd gydymdeimlad dwysaf â hwy a'u teuluoedd yn eu colled:

Mrs Ruth Davies ar golli ei mam-yng-nghyfraith

Mr Wyn Meredith ar golli ei chwaer
(c) Dymunwyd yn dda i Barchedig Ganon Tegid Roberts a'i wraig pan fyddent yn ymfudo i Batagonia ym mis Medi eleni o ganlyniad i secondiad Canon Roberts fel offeiriad yno am gyfnod o flwyddyn.

## 4. <u>DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL</u>

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 5. <u>MATER BRYS</u>

(Nid oedd yr eitemau isod wedi eu cynnwys ar y Rhaglen ond cytunodd y Cadeirydd i'w hystyried dan Adran 100 (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972).

(a) Adroddodd Mr Noel Dyer, cynrychiolydd UCAC, ei fod ar ddeall nad yw yn fwriad gan Goleg Meirion Dwyfor, Safle Pwllheli, gynnig Addysg Grefyddol lefel A llawn i ddarpar ddisgyblion sy'n dechrau ym mis Medi 2009 ond yn hytrach ei gynnig fel pwnc uwch gyfrannol (AS) yn unig. Deallir bod hyn eisoes yn creu pryder i rai disgyblion a'u bod yn ail-ystyried eu dewisiadau yn y Coleg ar gyfer mis Medi. 'Roedd yn amlwg hefyd bod disgyblion Blwyddyn 9 yn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli, a'u rhieni yn ymwybodol o'r sefyllfa gan eu bod yn crybwyll y mater wrth wneud eu dewisiadau ar gyfer TGAU. Nid oedd yr aelod yn ymwybodol o'r hyn a oedd Coleg Meirion Dwyfor yn gynnig ar Safle Dolgellau.

(b) Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod gwefan Coleg Meirion Dwyfor yn awgrymu mai dim ond AS mewn Addysg Grefyddol a fyddai'n cael ei gynnig ym Mhwllheli a Dolgellau o Fedi 2009. Pwysleisiwyd nad oedd CYSAG yn gyfrifol am safonau Addysg Grefyddol mewn colegau addysg bellach ond yn naturiol 'roedd athrawon ysgolion uwchradd Meirion a Dwyfor yn awyddus i weld eu disgyblion yn cael cyfleoedd i barhau a'u hastudiaethau yn y pwnc pe dymunent.

(c) Ategodd sawl aelod eu pryder am y sefyllfa uchod a nodwyd bod aelodau Henaduriaeth Arfon wedi trafod y mater hefyd ac yn pryderu nad oedd colegau addysg bellach yn cynnig dewisiadau yn y maes hwn i ddisgyblion.

(ch) Mewn ymateb i'r uchod, dywedodd cynrychiolydd yr athrawon nad oedd rheidrwydd ar unrhyw ysgol neu goleg addysg bellach i gynnig astudiaethau crefyddol i uwch gyfrannol (AS) na lefel A. Fodd bynnag, 'roedd mesur newydd i'w gyhoeddi gan y Cynulliad yn datgan os yw pwnc yn cael ei gynnig fel pwnc uwch gyfrannol, dylai'r sefydliad ymrwymo dilyniant i'w barhau i lefel A boed hyn drwy lwybr arall a ddim o reidrwydd gan yr un sefydliad. Deallir bod fforymau a grwpiau cwricwlaidd sy'n cynnwys colegau addysg bellach yn trafod materion o'r fath. Cydnabuwyd ei bod yn adeg ddyrys i ysgolion yn sgil trefniadau ôl-16 a'r ystod eang o bynciau fyddai'n rhaid iddynt gynnig i ddisgyblion. Oherwydd y newidiadau hyn, teimlwyd y byddai'n annoeth i CYSAG ddod i unrhyw gasgliadau pendant ar drefniadau

amgen megis defnydd o dechnoleg fodern, a.y.b. heb wybod beth fyddai oblygiadau trefniadau ôl-16.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol anfon llythyr, ar ran CYSAG, i Bennaeth Coleg Meirion-Dwyfor i ganfod gwybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth a gynigir gan y Coleg i ddisgyblion sydd yn dymuno parhau â'u hastudiaethau mewn Addysg Grefyddol hyd at lefel A.**

6. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar y 11 Chwefror 2009.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

7. **AROLYGIADAU YSGOLION**

**Cyflwynwyd:** (a) Gwybodaeth ar gynnwys adroddiadau arolygiadau ysgolion dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion.

(b) Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Gynradd Cae Top
(ii) Ysgol Gynradd Bron y Foel
(iii) Ysgol Gynradd Waunfawr

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Addysg Cynorthwyol ar gynnwys yr arolygiadau ger bron a oedd yn arbennig o dda gyda thair ysgol gynradd (Llidiardau, Manod, Bro Plennydd) ac un ysgol uwchradd (Syr Hugh Owen) wedi derbyn dyfarniad yng nghyd-destun cwestiwn allweddol 3 sy'n gofyn "Pa mor dda mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?" 'Roedd Ysgol Bro Tryweryn wedi ei harolygu ar y pwnc Addysg Grefyddol gyda'r ysgol yn derbyn Gradd 1 yng Nghyfnod Allweddol 2. Ymfalchïwyd yn y graddau a ddyfarnwyd i'r holl ysgolion uchod a llongyfarchwyd hwy ar eu llwyddiant.

(b) Gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar gynnwys hunan arfarniadau'r ysgolion a nodir yn (i) i (iii) uchod. Tynnwyd sylw at rinweddau arbennig yr ysgolion sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Nodwyd bod 27% o blant Ysgol Cae Top yn dod o wledydd tramor, gyda gwahanol grefyddau, ac 14 o wahanol wledydd yn cael eu cynrychioli yn yr ysgol, yn ogystal â 17 o wahanol ieithoedd yn cael eu siarad yn eu cartrefi. Ymfalchïwyd bod Ysgol Bron y Foel yn rhannu hunan arfanriad yr ysgol o safonau Addysg Grefyddol mewn ffordd onest ac 'roedd sawl agwedd a fyddai'n derbyn sylw yn adlewyrchiad o'r hyn a drafodwyd gan aelodau

CYSAG mewn cyfarfodydd blaenorol. Yn yr un modd, ‘roedd rhai o themâu Ysgol Waunfawr wedi derbyn trafodaeth o fewn cyfarfodydd CYSAG megis cwestiynau mawr y byd a strategaethau medrau meddwl.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a’r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â’r drefn, i’r Swyddog Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o’r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 7. ADDYSG GREFYDDOL AR LAWR Y DOSBARTH

Croesawyd Mrs Jano Owen, Pennaeth Ysgol Bro Tryweryn, Frongoch, Y Bala, i’r cyfarfod a chafwyd braslun ganddi o’r hyn a arweiniodd i’r ysgol dderbyn rhagoriaeth o Radd 1 yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dilyn arolygiad gan Arolygwyr ESTYN yn Ionawr 2008.

Eglurwyd bod oddeutu 26 disgybl yn mynychu’r ysgol a oedd wedi ei lleoli mewn ardal amaethyddol a diwylliedig, gyda dwy athrawes yn dysgu yno.

Amlinellodd yr athrawes y nodweddion da hynny a amlygwyd gan yr Arolygwyr sef bod y plant yn defnyddio eu medrau meddwl ac yn gallu mynegi eu barn a theimladau’n dda iawn. ‘Roedd y plant bob amser yn frwdfrydig tuag at y pwnc ac yn ymateb yn dda i bob math o symbyliaeth.

Nodwyd bod gan yr ysgol gynllun gwaith trwyadl gydag athrawon sy’n gallu mynd o dan groen y pwnc ac yn gallu arwain y drafodaeth yn gelfydd a gwybodus. Noda’r cynllun yr angen i’r plant archwilio ystod o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol megis lluniau, llyfrau, dehongli gwybodaeth drwy ysgrifennu, creu modelau, coginio, actio, canu, a.y.b.

Cafwyd enghreifftiau o’r gwersi a gyflwynir i’r disgyblion ynghyd â’r adnoddau a ddefnyddir. Cynhelir ymweliadau gan yr ysgol i sefydliadau crefyddol lleol megis Coleg y Bala i ddathlu’r Pasg, yr Eglwys yn y Bala a hyd yn oed ymhellach na hynny sef Eglwysi yn Lerpwl.

Diolchwyd am y cyflwyniad diddorol dros ben a gyflwynwyd gan Mrs Jano Owen ac atgyfnerthwyd pa mor bwysig ydyw ysgolion o’r fath yng Ngwynedd. Llongyfarchwyd y Pennaeth, staff a disgyblion yr ysgol am y dyfarniad rhagorol a dderbyniwyd ganddynt.

## 8. ADRODDIAD YR YMGYNGHORYDD DYNIAETHAU

Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod secondiad Mrs Carol Llewelyn Jones fel Athrawes Ymgynghorol yn dod i ben a chymerodd y cyfle i ddiolch iddi, ar ran CYSAG ac yn bersonol, am y gwaith clodwiw a wnaed ganddi yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Yn ei chyflwyniad, cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau at ddogfen addysg grefyddol "Canllawiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed" a oedd yn cynnwys cyfres o astudiaethau i ysgogi ac ennyn diddordeb pobl ifanc yn yr unfed ganrif ar hugain, mewn ffordd hyblyg i helpu gweithredu'r Craidd Dysgu mewn ysgolion. Cafwyd blas o'r math o weithgareddau gall athrawon gyflawni ar lawr y dosbarth i ddatblygu ysbrydolrwydd y plant, sgiliau meddwl, ysgrifennu, a.y.b.

Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am y cyflwyniad a'r gweithgaredd diddorol.

## 9. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

**Cyflwynwyd:** (a) Cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2009 ym Mhenybont-ar-Ogwr.

**Adroddwyd:** Gan y Cynghorydd Aeron Jones ei fod yn bwriadu creu CD i aelodau CYSAG o'r cyflwyniad a dderbyniwyd yn y cyfarfod uchod a oedd yn fuddiol dros ben ynghyd ag unrhyw wybodaeth a dderbynnir yn y cyfarfod sydd i'w gynnal ar 24 Mehefin 2009 yn Llangollen. Awgrymwyd y byddai'n syniad i wahodd Cymdeithas CYSAGau Cymru i Wynedd rhyw dro yn y dyfodol gan drefnu taith i'r aelodau i Eglwys Clynnog.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

**(b) Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 24 Mehefin 2009 yn Llangollen ac y byddai Cynghorydd Aeron Jones, Mr Wyn Myles Meredith a Miss Bethan James yn mynychu'r cyfarfod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.40 p.m.

**CADEIRYDD**